OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 319 (Cy. 60)

# ARBED YNNI, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Mawrth 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Mawrth 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy o ran Cymru(**2**).

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011(**3**).

### Diwygio'r prif Reoliadau

**2.** Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 6.

### Diwygio rheoliad 2 (dehongli)

**3.** Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(**1**) 1990 p. 27. Diwygiwyd adran 15 gan adran 142 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p. 53).

(**2**) Darparodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fod y swyddogaethau o dan adran 15 i fod yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn rhydd rhag y gofyniad am gydsyniad y Trysorlys. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**3**) O.S. 2011/656 (Cy. 94), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/2843 (Cy. 270).

(a) yn y diffiniad o "dosbarthiad ased" ("*asset rating*"), yn lle "Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Tystysgrifau ac Arolygiadau) (Cymru a Lloegr) 2007", rhodder "Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012(**4**)";

(b) hepgorer y diffiniad o "cais am grant rhannol" ("*partial grant application*").

**Diwygio rheoliad 5 (meini prawf cymhwystra)**

**4.** Yn rheoliad 5 (meini prawf cymhwystra)—

(a) ym mharagraff (2)(c), yn lle "38" rhodder "54";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3A) Ni chaniateir gwneud cais gweithfeydd mewn cysylltiad ag annedd pan fo—

(a) cais gweithfeydd wedi ei wneud yn flaenorol mewn cysylltiad â'r un annedd;

(b) y cais wedi ei gymeradwyo;

(c) gwneud y gweithfeydd mewn perthynas â'r cais hwnnw wedi ei gwblhau.";

(c) hepgorer paragraff (3).

**Diwygio rheoliad 6 (y dibenion y caniateir cymeradwyo grant ar eu cyfer)**

**5.** Yn rheoliad 6(1) (y dibenion y caniateir cymeradwyo grant ar eu cyfer), ar ôl is-baragraff (j), mewnosoder—

"(ja) darparu bylbiau golau rhad-ar-ynni;".

**Diwygio rheoliad 7 (uchafswm y grant)**

**6.** Yn rheoliad 7 (uchafswm y grant)—

(a) ar ôl paragraff (2)(b) hepgorer "ac";

(b) ar ôl paragraff (2)(b) mewnosoder—

"(ba) gan gyfeirio at ddosbarthiad ased annedd; a

(bb) gan gyfeirio at a yw annedd wedi ei chysylltu â'r rhwydwaith nwy ai peidio.";

(c) hepgorer paragraff (2)(c).

**Darpariaethau trosiannol**

**7.** Mae'r prif Reoliadau, fel y maent mewn grym yn union cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, yn parhau i fod yn gymwys ar y dyddiad hwnnw ac ar ôl y dyddiad hwnnw mewn perthynas â chais gweithfeydd neu gais am grant rhannol a wnaed ac a gymeradwywyd cyn y dyddiad hwnnw.

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

6 Mawrth 2018

(**4**) O.S. 2012/3118.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 (O.S. 2011/656 (Cy. 94)) ("y prif Reoliadau").

Mae rheoliad 3 yn diweddaru'r rhestr o ddiffiniadau yn y prif Reoliadau. Mae'n diweddaru ystyr "dosbarthiad ased" ac yn dileu'r diffiniad o "cais am grant rhannol".

Mae rheoliad 4 yn diweddaru'r meini prawf cymhwystra o dan y prif Reoliadau. Mae'n dileu'r ddarpariaeth ar gyfer ceisiadau am grant rhannol, yn diweddaru'r dosbarthiad ased gofynnol y mae'n rhaid i annedd ei gael i fod yn gymwys am gais gweithfeydd ac yn darparu na fydd annedd lle y cyflawnwyd gwaith yn flaenorol mewn perthynas â chais gweithfeydd yn gymwys i wneud ceisiadau pellach.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer darparu bylbiau golau rhad-ar-ynni o dan y prif Reoliadau.

Mae rheoliad 6 yn diweddaru'r fethodoleg a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru i bennu uchafsymiau grantiau o dan y prif Reoliadau.

Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â cheisiadau sy'n mynd rhagddynt a gymeradwywyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.